# Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**2010 mccc 8**

*Targedau gwastraff*

**4 Rheoliadau i osod targedau gwastraff**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau–

(a) pennu targedau gwastraff sydd i'w cyrraedd gan awdurdod lleol wrth arfer ei swyddogaethau;

(b) pennu dangosyddion y gellir cyfeirio atynt i fesur i ba raddau y mae awdurdod lleol yn bodloni'r targedau o dan baragraff (a);

(c) gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb i Weinidogion Cymru os na chyrhaeddir targed o dan baragraff (a).

(2) At ddibenion is-adran (1)(a), mae “targedau gwastraff” yn dargedau sy'n ymwneud ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, Adran 4.